

2017 Rhif (Cy.)

2017 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cwmifor i Faenordeilo, Sir
Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder
50 mya) 2017

The A40 Trunk Road (Cwmifor to
Manordeilo, Carmarthenshire) (50
mph Speed Limit) Order 2017

Gwnaed 9 Mai 2017
Yn dod i rym 11 Mai 2017

Made 9 May 2017
Coming into force 11 May 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 London to Fishguard Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

Title, Interpretation and Commencement

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mai 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwmifor i Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017.

1. This Order comes into force on 11 May 2017 and its title is The A40 Trunk Road (Cwmifor to Manordeilo, Carmarthenshire) (50 mph Speed Limit) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Diwygiwyd paragraff 27 o Atodlen 9 gan baragraff 8 o Atodlen 11 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38). Yn rhinwedd erthyl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. Paragraph 27 of Schedule 9 was amended by the Transport Act 2000 (c.38) Schedule 11, paragraph 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun rhwng Cwmifor a Maenordeilo yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 403 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol C2162, i'r gorllewin o Gwmifor hyd at bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol U4489, i'r gorllewin o Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Maenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2002(3) a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwmifor, Maenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2003(4) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

9 Mai 2017

Nina Ley

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(3) O.S. 2002/2663 (Cy. 255)

(4) O.S. 2003/988 (Cy. 137)

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road between Cwmifor and Manordeilo in the County of Carmarthenshire that extends from a point 403 metres south-west of the centre-point of its junction with county road C2162, west of Cwmifor to a point 300 metres north-east of the centre-point of its junction with county road U4489, west of Manordeilo, Carmarthenshire.

Restriction

3. No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road.

Revocation

4. The A40 Trunk Road (Manordeilo, Carmarthenshire) (50 mph Speed Limit) Order 2002(3) and The A40 (Cwmifor, Manordeilo, Carmarthenshire) (50 mph Speed Limit) Order 2003(4) are revoked.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

9 May 2017

Nina Ley

Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

(3) S.I. 2002/2663 (W.255)

(4) S.I. 2003/988 (W.137)

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(CWMIFOR I FAENORDEILO, SIR
GAERFYRDDIN) (TERFYN CYFLYMDER 50
MYA) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 11 Mai 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 50 mya ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 403 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol C2162, i'r gorllewin o Gwmifor hyd at bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol U4489, i'r gorllewin o Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 10 Mai 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, y plan a'r Gorchymynion a dirymwyd, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Siop Bapurau Newydd a Swyddfa'r Post Morgan, Heol y Llan, Llangadog SA19 9AA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1279451/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (CWMIFOR TO
MANORDEILO, CARMARTHENSHIRE) (50
MPH SPEED LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under section 84(1), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 11 May 2017.

The effect of the Order is to introduce a 50 mph speed limit on the length of the A40 trunk road that extends from a point 403 metres south-west of the centre-point of its junction with county road C2162, west of Cwmifor to a point 300 metres north-east of the centre-point of its junction with county road U4489, west of Manordeilo, Carmarthenshire.

During a period of 6 weeks from 10 May 2017 a copy of the Order, plan and the revoked Orders may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Morgan Newsagents & Post Office, Church Street, Llangadog SA19 9AA or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1279451/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

A copy of this notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government